

RHOI CYCHWYN DA I BRIODAS

Nodyn i'r siaradwr:

Mae'r amlinellid hwn yn trafod penodau 1-3 y llyfr *Making Your Family Life Happy (fl)*. *Peidiwch*, fodd bynnag, â darllen o'r llyfr yn uniongyrchol i'r gynulleidfa. Defnyddiwch ddeunydd mwy diweddar o blith y cyfeiriadau ychwanegol; fel hyn fe fydd eich gwybodaeth yn ffres a chyfoes. Agorwch y Beibl yn aml, a darllen yn uniongyrchol ohono fel eich awdurdod

SYLWEDDOLWCH BWYSIGRWYDD TREFN Y TEULU (4 mun.)

Bodlonir llawer angen dynol yng nghylch y teulu (Preg 4:9-12; *fl* 4-5; pwysleiswch berthynas glòs rhieni a phlant) 'Roedd bwriad daionus gan Dduw wrth sefydlu trefn y teulu (Gen 1:27, 28; 2:15; *fl* 8-9)

Mae hanes yn dangos pwysigrwydd y teulu, hyd yn oed yng ngoroesiad cenhedloedd (*fl* 6-7)

Mae ysbryd yn ymledu 'nawr sy'n rhoi'r teulu mewn perygl (*g83* 5/22 14; *fl* 6)

DEWIS EICH CYMAR AR GYFER PRIODAS HAPUS (9 mun.)

Cyngor Jehofah yw sail priodas hapus (Mth 7:24-27; *fl* 11-13)

Gall hyd yn oed y rhai sydd eisoes yn briod elwa o adolygu'r pwyntiau; gall helpu'n priodas ein hunain a'n darparu'n well i helpu eraill

Er mwyn i'ch priodas fod yn un hapus, rhaid eich 'nabod eich hun a'ch anghenion wrth ddewis cymar (*g83* 9/22 16-19; *g83* 10/8 20-2; *yp* 236-41; *fl* 13-15)

Mae 'na gwestiynau y dylech chi ofyn i chi'ch hun er mwyn canfod eich rhesymau dros briodi: 'Beth ydw i ei eisiau o briodas? Beth ydi' f'anghenion i—yn gorfforol, yn emosiynol, yn ysbrydol? Beth ydi fy ngwerthoedd i, fy nodau i a'm dulliau o'u cyrraedd nhw?'

Mae diffyg cytuno parhaol yn achosi anhapusrwydd mewn llawer priodas (*g85* 7/22 29)

Mae cwestiynau i'w gofyn ynglŷn ag anghytuno parhaol yn cynnwys: Pa fath o waith fydd y gŵr yn ei wneud? Ble fyddwch chi'n byw? Faint o arian sydd ei angen i gyfarfod ag anghenion ymarferol? Pwy fydd yn gofalu am y gyllideb? Fydd angen i'r wraig weithio? Beth yw teimladau'r naill a'r llall ynglŷn â rhyw, plant, y berthynas â'r teuluoedd-yng-nghyfraith, ac ati? (Diar 15:22; *fl* 16)

Mae cael cefndir tebyg yn eich helpu i ddod ymlaen â'ch gilydd (*fl* 17)

Gwahaniaethu rhwng gwir gariad a gwirioni'n ffol (*yp* 242-51)

Agwedd 'Mi fedra' i ei newid e/hi'—yn rhywbeth i'w osgoi (*fl* 18-20)

YMRWYMIADAU Y DYLLID EU GWNEUD NHW MEWN PRIODAS (10 mun.)

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r ymrwymadau sy'n rhan o briodas (Gen 2:23, 24; *fl* 20-3)

Yr hyn y mae'n rhaid i'r fenyw feddwl amdano wrth ddewis dyn i'w briodi: 'Ydw i'n fodlon iddo fod yn ben arnaf?'

Yr hyn mae'n rhaid i'r dyn ei ystyried wrth ddewis gwraig: 'Ydw i'n ei charu fel fy hun?'

Bydd ymrwymiad wedi'i seilio ar gariad a pharch yn fwy parhaol na nwyd

Ffactorau pwysig eraill i'w hystyried cyn priodi (*fl* 23-5)

Nid yr ymddangosiad allanol sy'n cyfri' ond yr hyn sydd yng "nghymeriad cêl y galon" (1Pedr 3:4; 1Sam 16:7; *yp* 255, 258-60)

Mae priodi rhywun "yn yr Arglwydd" yn hanfodol (1Cor 7:39; Deut 7:3, 4; *w89* 11/1 18-22; *fl* 24 ¶136)

Cyfrifwch y gost cyn gwneud ymrwymiad mor ddifrifol â phriodas (Lc 14:28, 29)

Os ydi gwahaniaethau difrifol yn aros, efallai mai'r peth gorau yw rhoi terfyn ar y garwriaeth (*yp* 256-7)

Mae 'na werth mewn gwranddo cyngor pobl hŷn (Job 12:12; Diar 3:5, 6)

FEL ARFER MAE ANGEN ADDASU AR ÔL PRIODI (4 mun.)

Peth da yw gwerthfawrogi efallai y bydd angen addasu er mwyn cyflawni Pregethwr 4:9, 10 yn llwyr (*fl* 26-30)

Er mwyn addasu, mae angen bod yn hyblyg, yn fodlon ildio

Cydnabyddwch nad ydych ar eich pen eich hun yn ymaddasu; bydd y ddau ohonoch yn gwneud hynny oherwydd cariad (*fl* 29 ¶17)

Bydd ystyried anghenion a meddylfryd eich cymar ar faterion rhyw yn eich helpu i addasu yn y maes hwn ac osgoi hunanoldeb (*g82* 8/8 5-6)

YMDOPI AG ANGHYTUNO YN Y BERTHYNAS BRIODASOL (12 mun.)

Ni fydd unrhyw ddau berson yn cytuno ar bopeth (*fl* 30-3)

Bydd amherffeithrwydd yn achosi anghytuno, a rhaid inni dderbyn gwendidau ein cymar ac ymdopi â nhw (Diar 19:11; *fl* 31 ¶13)

Angharedig a di-dact ydi cymharu'n cymar yn anffafriol ag eraill

Mae rhai seicolegwyr modern yn cymeradwyo y dylai cyplau ffraeo er mwyn amlygu gwahaniaethau, ond mae'r Beibl yn dangos mai annoeth ydi eu cyngor (Diar 17:14)

Mae sicrhau cyfathrebu agored rhwng cymheiriaid priodas yn allweddol i ddatrys anawsterau (*g86* 1/8 3-5; *fl* 33-7)

Mae ffordd gywir a ffordd anghywir o godi problemau (Diar 18:13)

Ar adegau bydd tyndra ar ein cymar y bydd yn rhaid inni ei ddeall a'i ystyried (Diar 17:17)

Mae cenfigen yn ei gwneud yn anodd iawn cyfathrebu'n dawel (Diar 14:30)

Weithiau gall rhywun o'r tu allan helpu i ddatrys anghytuno (*fl* 36 ¶23)

Mae balchder yn rhwystro cyfathrebu a datrys anawsterau, ond mae balchder yn mynd yn ddim os cofiwn ein dinodedd a bod gennym synnwyr digrifwch

Dylai "peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb" fod yn egwyddor arweiniol wrth ymdopi ag anghytuno (Rhuf 12:17; 1Pedr 2:23; *fl* 37-8)

Byddwch yn ffyddlon i chi'ch hun ac i egwyddorion gwneud yr hyn sy'n iawn

Mae talu daioni yn aml yn atal "y drygioni" (Rhuf 12:21)

ADOLYGWCH Y TESTUNAU YSGRYTHUR A WELIR AR DUDALENNAU 38-9 Y LLYFR *FAMILY LIFE*, YNGHYD A'U CYMHWYSIAD (6 mun.)

O gymhwyso'r egwyddorion hyn, dylech fedru cael cychwyn da i'ch priodas

Byddwch yn optimistaidd bob amser. Osgowch ddisgwyliadau afrealistig. Cadwch eich synnwyr digrifwch.

Byddwch yn hyblyg. Dewch i wir 'nabod eich cymar

Gyda bendith Jehofah, medrwch gael priodas aeddfed, barhaol, a hapus

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

Rhif 27—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD